



POLISI GWRTH -FWLIAN
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

POLISI GWRTH -FWLIAN Ysgol Gyfun Gwent Is Coed **CEFNDIR**

Natur bwlio

Defnyddir llawer o ddiffiniadau o fwlio, ond mae'r mwyafrif yn ystyried ei fod:

- yn weithred niweidiol yn fwriadol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol)
- yn cael ei ailadrodd yn aml dros gyfnod o amser (tra'n cydnabod y gall hyd yn oed un digwyddiad unigol adael y disgybl wedi'i drawmateiddio ac yn pryderu y bydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol)
- yn anodd i ddiodefwyr amddiffyn eu hunain rhagddo
- yn tarddu o un cyfeiriad yn unig. h.y nad oes cwmpo mas yn y ddau cyfeiriad e.e. nid yw dau disgybl neu grwp o ddisgyblion sydd yn gwrthdaro **gyda'i gilydd** yn cael ei ystyried fel bwlio.

Rydym yn cydnabod bod y broblem yma yn un sydd yn bodoli mewn sawl sefyllfa gymdeithasol e.e. carchardai, Y Fyddin, Ysbytai Preswyl, yn ogystal â mewn ysgolion. Ystyriwn fod y broblem yn codi pan fo grŵp o bobl yn dod at ei gilydd a bod rhai unigolion yn ceisio ymddwyn mewn dull gormesol yn erbyn unigolion eraill. Maent yn berchen ar ysfa i boenydio eraill ac i osod unigolion eraill dan bwysau. Mae'r weithred o fwlian yn ymwneud â'r defnydd o rym, ac mae'r bwli yn gallu adnabod pa unigolion sydd yn hawdd eu gormesu. Bydd herio achosion o fwlio mewn ffordd effeithiol yn gwella diogelwch a hapusrwydd disgyblion, yn dangos bod yr ysgol yn gofalu am ei disgyblion, ac yn rhybuddio'r rhai sy'n bwlio nad yw'r fath ymddygiad yn dderbyniol.

Mae'n amlwg bod disgyblion sydd yn cael eu bwlian yn dadlennu patrymau ymddygiad arbennig megis gwlychu'r gwely, neu dangyflawni bwriadol er mwyn osgoi sylw, neu driwantio. Ymddengys i'r bwli ddysgu sut i fod yn fwli gan sylwi ar y patrymau a welir yn ei amgylchfyd. Gwelir hyn yn y ffordd mae ymddygiad ymosodol yn ddull o ennill breintiau, neu wrth weld enghreifftiau o ymddygiad gormesol yn y gymuned.

Cydnabyddwn hefyd bod gan y bwli yn aml rôl ddeublyg gan gall yntau hefyd gael ei fwlian. Gellir cydnabod bod bwlian yn weithred anghyfreithlon, ac yn gwadu hawliau cyfartal unigolion. Mae 10/12 unigolyn sydd yn cyflawni hunanladdiad yn flynyddol yn digwydd ohewrydd bwlian. Mae achosion yn codi o unigolion yn troi at y gyfraith er mwyn delio â'r sefyllfa. Ein dyletswydd fel ysgol, felly, yw ddarparu amgylchfyd diogel er mwyn hyrwyddo dysgu effeithiol.

NODAU

- i) Dileu ymddygiad gormesol.
- ii) Sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl yn dioddef oherwyd bwlian.

DOSBARTHU'R YMDDYGIAD

BWLIAN GEIRIOL e.e. Galw enwau ar ddisgyblion swil. Gellir tynnu sylw at unrhyw beth yng nghefnidir y disgybl sydd yn fater sensitif iddo/iddi. Gellir sarhau ar seiliau ethnig, hiliol, teuluol neu gorfforol.

BWLIAN CORFFOROL e.e. Fandaleiddio eiddo, neu ymosodiadau uniongyrchol, gall ymosodiad fod yn ffyrnig neu yn gyfres o ddigwyddiadau llai fel- poeri, slap, tripio, taflu cerrig.

BWLIAN CRIBDDEILIOL(EXTORTION)- Mae'r bwli yn hawlio arian bws, arian, losin, offer, dillad wedi ei labeli. N.B. Ni fydd y bwli yn hapus i roi llonydd ar ôl un digwyddiad.

BWLIAN GWRTHODOL (GWAHARDDIADOL)

Gwelir hyn yn aml gyda merched yn eu harddegau yn enwedig lle mae grŵp o blant yn gwahardd unigolyn rhag chwarae neu rhag gweithio gyda nhw. Mae'r unigolyn yn cael ei ynysu oddi wrth ei gyfoedion. Mae hyn yn aml yn dechrau fel cystadleuaeth am rywbeth y tu allan i'r ysgol.

Mae'r weithred o waradwyddo a bychanu o flaen eraill yn peri cryn boen yn enwedig os nad oes oedolion yn dod i'r adwy.

LLEDU STRAEON MALEISUS. Mae hyn wedi ei ychwanegu at y rhestr yn ddiweddar ac yn enghraifft o fwliant sydd yn arbennig o filain. Gellir gadael llythyron ar ddesgiau, posteri ar furiau, graffiti, ymgyrch sibrwd. (Gweler hefyd "Cyber-fwliant" isod.)

Bwlio Rhywiol

Mae bwlio **rhywiol** yn effeithio ar fechgyn a merched ac mae'n bwysig cydnabod digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag un rhyw yn ogystal ag ymddygiad croesryw. Mae achos o ymosodiad rhywiol a brofwyd yn debygol o arwain at wahardd y disgybl a fu'n gyfrifol. Gall bwlio rhywiol hefyd gael ei gysylltu â **chyfeiriadedd rhywiol**. Bydd yr ysgol yn gwarantu cyfrinachedd (yn cynnwys wrth rieni) a chyngor priodol i ddisgyblion sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol a'r disgyblion hynny sy'n ansicr ynglŷn â'u rhywioldeb.

Yn gyffredinol, nodweddir bwlio rhywiol drwy:

- galw enwau difriol
- sylu a sylwadau ynglŷn â golwg, dengarwch, dechrau'r cyfnod aeddfedu
- cyffyrddiadau amhriodol heb wahoddiad
- ensyniadau a chynigion rhywiol
- deunydd pornograffig, graffiti â chynnwys rhywiol ei natur
- ar ei ffurf eithaf, ymosodiad rhywiol neu drais.

Bwliant Homoffobig

Mae bwliant homoffobig yn hollol annerbyniol yn yr ysgol ac y byddwn yn gwneud hyn yn hollol eglur i'r bwli. Cynnigir cymorth ar gyfer y dioddefwr gan dîm lles a chynnydd yr ysgol ac fe gwneir cofnod o bob digwyddiad ac fe'u storir yn gyfrinachol ar systemau'r ysgol.

Bwlio drwy anfon negeseuon testun ar ffônau symudol

Mae hawl gan ddisgyblion i ddod a ffônau symudol i'r ysgol ond nid i'w defnyddio (gweler polisi ffônau symudol) ac felly mewn theori ni ddylem dod o hyd i sefyllfa ble danfonwyd neges ffôn symudol ar dir yr ysgol.

Mewn achosion ble mae disgybl wedi derbyn neges tu fas i'r ysgol bydd athrawon yn annog y disgybl i gadw hyn yn ddiogel, ac ble yn bosib i argraffu'r tystiolaeth. Yn dibynnu ar natur y neges weithiau bydd angen i deulu'r plentyn gysylltu â'r heddlu. Mewn achosion ble mae'r cwmpo mas wedi cyrraedd yr ysgol, bydd y staff yn trafod y negeseuon gyda'r unigolion ac yn rhoi rhybudd ynglyn a'u hymddygiad yn y dyfodol. Mewn rhai achosion bydd y pennaeth/ dirprwy yn cysylltu gartref ac o bosib gyda swyddog cyswllt yr heddlu neu yr heddlu yn uniongyrchol.

Cyberfwlian – lledaenu storïau cas am rywun, gwneud rhywun yn destun storïau maleisus, anfon negeseuon anwedus a maleisus trwy e-bost neu negeseuon ar ffonau symudol. Mewn achosion o'r fath, fe gynghorir rhieni i sicrhau nad oes gan ei plentyn hwy mynediad i wefannau megis facebook, twitter a snapchat a.y.b ac i gadw tystiolaeth o unrhyw sgysiau/negeseuon maleisus. Unwaith eto, mae'n bosibl y bydd angen i deulu'r plentyn cysylltu gyda'r heddlu.

Yn hanesyddol, mae achosion ble nad yw'r rhieni wedi gwranddo ar gyngor ysgolion trwy waharadd (h.y. 'blocio' defnydd) y wefannau/'appiau' sydd yn achosi'r problem wedi profi i fod yn fwy lletchwith i'r ysgol i'w datrys.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant ar Cyberfwlian ar gael ac fe fyddwn yn manteisio ar hyn.

Anghenion Addysgol Arbennig

Mae disgyblion ag **Anghenion Addysgol Arbennig** neu anabledau yn aml yn wynebu mwy o risg o gael eu bwlio, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

BETH ALLWN EI WNEUD?

Fe ddylai staff sydd ar ddyletswydd fod yn ymwybodol o'r broblem gan sicrhau bod pob rhan o'r ysgol yn cael ei wirio am drafferth.

Dylai'r staff fod yn wyladwrus hefyd rhwng gwersi, ac ar derfyn dydd. Dylid bod yn effro i unrhyw arwyddion bod rhywbeth o le, e.e. dirywiad yn safon gwaith, salwch heb eglurhâd derbyniol, unigedd, amharodrwydd i gymryd rhan, llyfrau wedi eu difrodi, niwed corfforol.

Bydd y staff yn gwranddo ac yn ystyried o ddifri unrhyw gwyn gan ddisgybl ac yn cymryd gofal i sicrhau diogelwch y disgybl. Byddant yn cofnodi'r digwyddiad ac yn hysbysu'r bobl priodol.

Ar gyfer achosion difrifol o fwlio, yn enwedig yr achosion hynny sy'n ymwneud ag aflonyddu neu drais rhywiol, gall amddiffyn plant fod yn fater i'w ystyried.

Bydd disgwyl i'r disgybl a'r athro gofnodi manylion y digwyddiad ar bapur ac i gysylltu gyda swyddog diogelu plant yr ysgol.

Fe ddylai'r athro ac aelod o'r tîm lles sicrhau bod

- Y disgyblion priodol yn deall difrifoldeb y digwyddiad

- Pawb yn deall bod cofnod o'r digwyddiad yn cael ei gadw.
- Y broses cymodi yn digwydd yn y ffordd mwyaf effeithiol
- Y bwli yn deall bod ymddygiad o'r math hwn yn peri loes i ddisgyblion eraill
- Y sancsiynau a bennir yn cosbi'r disgybl am yr ymddygiad.
- Y sefyllfa yn cael ei fonitro yn feunyddiol a bod dilyn-i- fyny trwyadl yn digwydd.
- Lle mae'r sefyllfa yn parhau, bydd yr ysgol yn cysylltu eto gyda'r cartrefi.
- Mewn achos difrifol fe fydd angen i'r rhieni ddod i'r ysgol i drafod ac y mae diarddeliad yn bosibl.
- Y staff yn ymdrin â'r mater yn gadarn ond nid yn ormesol.
- Y staff cynorthwyol, gan gynnwys staff dyletswydd cinio, a'r gyrrwyr bws yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Byddwn yn defnyddio camau uniongyrchol i atgoffa disgyblion bod bwlio yn annerbyniol ac na chaiff ei ganiatáu. Yn aml, bydd difrod, anaf neu ladrad a digwyddiadau eraill yn gofyn am ymateb cadarn. Yn yr achosion mwyaf difrifol, mae'r broses o sicrhau bod rhieni'n gysylltiedig ar y cychwyn yn hanfodol, ac mae'n bwysig cofio y byddant, o bosibl, am gysylltu â'r heddlu os oes angen.

Byddwn yn cadw gofnodion manwl gywir o ddigwyddiadau – ac ymateb yr ysgol – er mwyn helpu â gweithrediadau ac er mwyn diogelu'r ysgol rhag camau cyfreithiol.

Camau Dilynol

Mae'n hanfodol bod camau dilynol yn cael eu cymryd ar ôl y digwyddiad er mwyn sicrhau nad yw'r bwlio wedi aildechrau. Gwneir hyn o fewn tua phythefnos, ac eto o fewn yr hanner tymor dilynol. Mewn llawer o achosion, mae'r bwlio yn debygol o stopio yn syth ar ôl ymyrryd. Fodd bynnag, dengys ymchwil y gall bwlio fod yn ddirugaredd a gallai aildechrau.

Integreiddio Disgyblion Newydd

Dylid sicrhau bod cymorth arbennig yn cael ei estyn i ddisgybl newydd e.e. cyfweiliadau cyson gyda'r Athro Dosbarth neu'r Pennaeth/ Dirprwy. Gellir sicrhau bod disgyblion dibynadwy yn cadw llygad ar y plentyn

Presenoldeb

Gall plant sy'n cael eu bwlio fod yn amharod i fynychu'r ysgol a byddant yn aml yn absennol. Mae'r tim lles yn effro i hyn ac felly mae'n hanfodol bwysig i'r disgybl sydd yn cael eu bwlio trafod y digwyddiadau gyda'r person perthnasol, neu aelod o'r tim lles, er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.

Dulliau o ymdrin â bwlio drwy'r Cwricwlwm

Y prif amcan fydd:

- codi ymwybyddiaeth ynglŷn â bwlio a'r polisi gwrth-fwlio
- cynyddu dealltwriaeth o'r rhai sy'n dioddef, a helpu i ddatblygu ethos gwrthfwlio
- addysgu disgyblion sut i reoli eu cydberthnasau gydag eraill mewn ffordd adeiladol.

Rhoddir cyfle i ddefnyddio'r gwersi ar gyfer hybu agweddau gwrth fwlian. Nid yn unig yn y gwersi y Fagloriaeth / ABCh ond yn y pynciau eraill hefyd. Mae'n rhaid gofalu bod

disgyblion AAA yn cael eu cynnwys yn y gwaith ar fwlio yn y cwricwlwm mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion unigol.

Ethos yr Ysgol

Dylai'r ysgol sicrhau bod y disgyblion yn cael pob cyfle ac anogaeth i siarad am fwlian ac i siarad gydag athrawon. **DIM BWLIAN. DEWCH I DDWEUD!**

Ffrindiau Cyfrinachol

Bydd disgyblion cydwybodol yn cael ei paru gyda disgyblion sydd yn teimlo yn anifyr er mwyn codi eu hyder.

RHEOLI ARGYFWNG (ADWEITHIOL), Lleisiau disgyblion, Cosbi, Cyngor gan gyfoedion, Cysylltu â rhieni

STRATEGAETH YMYRRYD

Cynllun Pontio effeithiol, yn y dyfodol plant hyn yn gyfeillio gyda phlant iau. Arolygaeth egwyl ac awr ginio effeithiol. Mae'r buarth a'r tai bach yn ardaloedd o'r ysgol sydd yn ffocws ar gyfer bwlian. Mae pobl sydd heb eu hyfforddi yn gallu camddeall sefyllfa a thrwy hynny gyfrannu at waethygu'r sefyllfa.

ATALIAETH (RHAGWEITHIOL)

Trefniadaeth yr ysgol; defnyddio'r cwricwlwm; darparu a meithrin ethos gwrth fwlian yn yr ysgol; poster; gwasanaethau; drama ac yn y blaen, ymweliadau cwmniau drama.

Gwasanaethau Cyngori

Caiff teuluoedd disgyblion eu hysbysu o achosion o fwlio yn amlach nag athrawon; mae disgyblion hyn yn llai tebygol o ddweud unrhyw beth o gwbl. Gall darparu gwasanaethau cyngori helpu disgyblion i siarad yn gynharach.

Aflonyddu hiliol

Nid yw'r ysgol yn barod i adael i unrhyw ddisgybl arddangos ymddygiad hiliol tuag at ei gyd-ddisgyblion. Yn Adroddiad MacPherson 1999, diffiniwyd bwlio hiliol fel "unrhyw ddiwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ei ystyried yn hiliol".

GWEITHREDU

Nid yw ysgolion yn uniongyrchol gyfrifol am fwlio sy'n digwydd oddi ar dir yr ysgol. Mae hyn hefyd yn wir mewn achosion o cyber-bwlio sydd yn digwydd yn fwy aml yn ddiweddar gyda thwf y wefannau cyfryngau cymdeithasol. Dim ond mewn achosion ble mae'r cwmpo allan wedi cyrraedd tir yr ysgol bydd aelod o'r tîm lles yn ymyrryd. Mewn achosion eraill, awgrymir yn gryf dylai rhieni cadw'r tystiolaeth yn ddiogel a chysylltu gyda'r heddlu.

Mewn dyfarniad Llys yn 2000, dyfarnwyd bod dyletswydd gofal y pennaeth dros atal achosion cyffredinol o fwlio ond yn berthnasol o fewn tir yr ysgol, er y gallai methiant i gymryd camau disgyblu i wrthsefyll ymddygiad niweidiol y tu allan i'r ysgol olygu bod yr ysgol yn torri ei dyletswydd gofal o dan gyfraith gwlad (Leah Bradford-Smart v Cyngor Sir Gorllewin Sussex). Mae llawer o fwlio yn digwydd y tu allan i gatiâu'r ysgol, ac wrth deithio i'r ysgol ac o'r ysgol.

Mae llawer o'n ddisgyblion yn cymryd bysiau i mewn i'r ysgol sy'n rhoi mwy o botensial ar gyfer achosion o fwlio y tu allan i'r ysgol.

CANLYNIADAU

Mae'r ysgol yn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol bod eu hymddygiad yn gysylltiedig â chanlyniad, gyda chanlyniadau iddynt hwy ac i eraill.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r canlynol...

* seibiant. Symud y myfyriwr o'r grwp, nid fel cosb, ond yn hytrach er mwyn rhoi amser iddynt feddwl am eu hymddygiad a chynnig ateb

- gwrthod breintiau, gyda'r cyfle i waredu eich hunain
- cynllun rheoli i fyfyrwyr unigol
- cyswllt rhieni
- cynghori
- symud y bwli i ffwrdd oddi wrth y dioddefwr (e.e. i ddosbarth arall)

Os bydd pob ymgais yn methu, efallai y bydd angen gwahardd disgybl amgylfnod penodedig neu, yn enwedig pan fo trais difrifol yn gysylltiedig, bydd gan y pennaeth yr opsiwn o wahardd disgybl yn barhaol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn gam gweithredu safonol a dylid ystyried pob achos ar wahân.

Cynnwys rhieni

Mae cymorth gan rieni yn aml yn allweddol i lwyddiant neu fethiant mentrau gwrth-fwlio. Mewn achosion o cyber-fwlio mae'n hanfodol bwysig bod rhieni yn monitro yn ofalus pa wefannau/'appiau' a defnyddiwyd gan ei plentyn. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr ysgol yn awgrymu yn gryf na ddylai'r plentyn sydd yn cael ei fwlio cael unrhyw fynediad i wefannau cyfryngau cymdeithasol megis facebook, snapchat a twitter. h.y. bydd disgwyl i'r rhieni gwahardd ei plentyn rhag defnyddio'r fath adnoddau.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn cefnogi mesurau gwrth-fwlio ac yn awyddus i gymryd rhan. Mae'r broses ymgynghori yn bwysig ac yn helpu i greu ethos lle y caiff ymddygiad cadarnhaol ei annog a lle y caiff bwlio ei ystyried yn annerbyniol.

Rhieni yn hysbysu'r ysgol o achosion o fwlio

Gall rhieni gysylltu ag ysgolion, yn aml mewn gofid, i'w hysbysu bod eu plentyn yn cael ei fwlio. Bydd yr ysgol bob amser yn cymryd eu pryderon o ddifrif.